

## Tasg 1

# Roald Dahl

1. Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
Cafodd Roald Dahl ei eni yn Norwy.		
Roedd Roald Dahl yn siarad Norwyeg a Chymraeg.		
Mae rhieni Roald Dahl wedi eu claddu yn Radyr, Caerdydd.		
Roedd Roald Dahl yn hoffi gwyllo tîm pêl-droed Caerdydd yn chwarae.		
Roedd teulu Roald Dahl yn mynd i Norwy yn gyson ar eu gwyliau Pasg.		
Doedd dim gwahaniaeth gan Mrs Pratchett fod Roald Dahl wedi rhoi llygoden yn y jar losin.		

2. Darllenwch baragraff y stori am siop losin Mrs Pratchett, a **dewiswch a chopiwch** y geiriau sy'n golygu bod y jar wedi torri'n ddarnau mân.
3. Gyda phartner, **trafodwch** pam mae'r geiriau hyn yn y darn am Roald Dahl:

<b>Plass</b>	<b>pêl-droed</b>	<b>Dinbych-y-Pysgod</b>
<b>Norwy</b>		<b>ysgol breswyl</b>

4. Beth mae Caerdydd wedi'i drefnu i ddathlu can mlwyddiant geni Roald Dahl?
5. Beth rydych chi'n ei ddysgu am gymeriad Roald Dahl wrth ddarllen stori siop losin Mrs Pratchett?

Os ydych chi wedi darllen ei lyfrau i blant, ydy Mrs Pratchett yn eich atgoffa am gymeriad/au yn ei waith?

6. Tynnwch **chwe** llinell i gysylltu pob gair â'r diffiniad cywir:

arddangosfa	yn aml
cludo	llawer o bethau wedi'u trefnu er mwyn i bobl eu gweld
mynwent	blin a chrac iawn
ysgol breswyl	caru a chanmol person neu Dduw
yn gyson	Ile i gladdu pobl sydd wedi marw
addoli	cario
cynddeiriog	Ile i blant gael addysg ac maen nhw'n aros yno hefyd, yn lle byw gyda'u teulu

7. Ysgrifennwch ddarn o ddyddiadur Roald Dahl am y diwrnod pan aeth â'r llygoden i siop losin Mrs Pratchett.
8. Oes rhywun enwog o'ch ardal chi y gallech chi drefnu gweithgareddau i ddathlu ei bod/ei fod yn dod o'r ardal? Pa weithgareddau y byddech chi'n eu trefnu? Nodwch y gweithgareddau posibl.
9. Dyma ddarn allan o *Jirâff, a'r Pelican a Fi*, gan Roald Dahl. Yn anffodus, mae'r cyfieithydd wedi gwneud **pum gwall**. (h.y. dileu 'anghofio')
- Heb fod ymhell o'r man lle rwy'n byw mae hen tŷ pren gwag rhyfedd ar ei ben ei hun wrth ymyl y ffordd. rwy'n ysu am cael mynd i cael cip arno ond mae'r drws wedi'i gloi bob amser, a phan fydda i'n syllu drwy un o'r ffenestroedd, dim ond tywyllwch a llwch sydd yw gweld.**